



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Park View (Wrecsam)

Wrecsam

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cyhoeddi

28 Chwefror 2018

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Park View yn wasanaeth gofal seibiant wedi'i leoli yng Ngwersyllt sy'n darparu llety a gofal personol ar gyfer hyd at bedwar person ar unrhyw adeg sydd angen gofal a chymorth o ganlyniad iddynt gael diagnosis o nam/diffyg ar y synhwyrâu, anableddau corfforol a/neu anableddau dysgu. Cyngor Sir Wreccsam yw'r darparwr cofrestredig ac maent wedi enwebu rhywun i fod yn unigolion cyfrifol. Y rheolwr cofrestredig yw Wendy Bailey.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae pobl yn derbyn gofal a chymorth gan staff sy'n gyfarwydd â'u hanghenion, ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol â nhw. Mae ganddynt fynediad at gymorth gydag anghenion gofal iechyd yn ôl y galw. Caiff pobl eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl ac mae ganddynt gyfleoedd i gadw'n brysur mewn ffordd bwrpasol yn y cartref ac yn y gymuned leol.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân, diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac sy'n diwallu eu hanghenion.

Mae'r staff yn derbyn arweinyddiaeth a chymorth o ddydd i ddydd ond ni welsom dystiolaeth bod hyfforddiant neu oruchwyliaeth ffurfiol wedi'u darparu. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth ac mae hyn yn cynnwys y ffordd y mae cwynion a materion diogelu yn cael eu rheoli.

2. Gwelliannau

Mae staff yn cyfarfod â pherthnasau ar y diwrnod y caiff pobl eu derbyn i'r gwasanaeth ac yn cwblhau taflen 'drosoglwyddo' sy'n nodi anghenion pobl ar hyn o bryd fel bod unrhyw newidiadau ers iddynt aros yn flaenorol, yn hysbys ac wedi'u cofnodi. Defnyddir yr wybodaeth hon i adolygu a diweddarau cofnodion gofal.

Bellach mae ffeiliau staff yn cynnwys ffotograff diweddar o bob aelod o staff. Gwelsom fod yr unigolyn cyfrifol neu unigolyn a benodwyd ar ran yr unigolyn cyfrifol, wedi ymweld â'r gwasanaeth ar bedwar achlysur ers Gorffennaf 2016.

3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump yr adroddiad hwn yn amlinellu ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth a meysydd lle nad yw'r person cofrestredig yn bodloni gofynion cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol;

- Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ystyried sut mae'n bwriadu bodloni gofynion cynnig gweithredol y Gymraeg yn yr wybodaeth a ddarperir am y gwasanaeth ac yn y ffordd y mae'r gofal a'r cymorth yn cael eu darparu.
- Mae angen gwella'r cynlluniau gofal a'r asesiadau risg.
- Mae angen gwneud gwelliannau yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gwirio ac yn gwella ansawdd y gwasanaeth.
- Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn iddynt gynnwys yr holl wybodaeth ofynnol a argymhellir.
- Mae angen gwneud gwelliannau yn y ffordd y mae cofnodion goruchwylio ac arfarnu yn cael eu cadw. Dylai pob aelod o staff gael arfarniad blynyddol.

1. Llesiant

Crynodeb

Mae pobl yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni staff sy'n gyfarwydd â'u hanghenion a'u harferion. Caiff pobl eu cefnogi i wneud eu dewisiadau eu hunain a bod mor annibynnol â phosibl. Mae angen gwelliannau pellach i sicrhau bod anghenion diwylliant Cymraeg pobl yn cael eu diwallu, pan fydd unigolion yn gofyn am hynny.

Ein canfyddiadau

Mae gan bobl ddewis ynghylch sut maen nhw'n treulio eu hamser. Gwnaeth yr holl berthnasau a gwblhaodd ein holiaduron nodi fod y gwasanaeth yn *"dda iawn"*. Roedd y sylwadau yn gadarnhaol iawn hefyd a nododd un perthynas ei fod yn hoffi *"cyfeillgarwch, hyblygrwydd a ffordd gyfeillgar a charedig yr holl staff"*, *"nid oes unrhyw beth yn ormod o drafferth, ac mae croeso i ymwelwyr ar unrhyw adeg heb rybudd, does dim byd ganddynt i'w guddio"* a *"ni allwch chi wella ar ragoriaeth"*. Nid oedd y bobl a oedd yn aros yn y cartref yn ystod ein harolygiad yn gallu cyfathrebu â ni ar lafar. Gwnaethom arsylwi ar sut roedd pobl yn treulio eu hamser a sut roeddent yn cael cymorth gan staff i wneud penderfyniadau, gan gynnwys gwyllo'r teledu, dewis eu prydau bwyd eu hunain a pharatoi bwyd. Roedd pobl yn rhydd i symud o amgylch y cartref a threulio amser gyda'r staff a phobl eraill neu ym mhreifatrwydd eu hystafelloedd eu hunain. Gwelsom fod pobl yn gysurus gyda staff a'u bod yn mwynhau sgysiau cyfeillgar gyda staff a oedd yn rhagweld eu hanghenion. Gwnaethom ddefnyddio offeryn y Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI) hefyd i arsylwi ar drefn brecwast un person. Cafodd ei anghenion eu diwallu'n ddiffwdan yn unol â'i ddewisiadau a'i hoffterau. Darperir cyfleoedd i bobl gadw'n brysur mewn ffordd bwrpasol yn ôl eu dymuniad, mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i anghenion a galluoedd unigolion.

Ni all pobl ddisgwyl derbyn gwasanaeth cyflawn yn Gymraeg. Nid yw'r datganiad o ddiben na'r canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth yn gwneud unrhyw gyfeiriadau at sut mae'r gwasanaeth yn bwriadu bodloni gofynion cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau sy'n darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru ddweud wrth bobl sut y bydd eu hanghenion diwylliannol Cymraeg yn cael eu bodloni. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth ynghylch y gwasanaeth yn Gymraeg, casglu gwybodaeth am yr ieithoedd a siaredir a lefel cymhwysedd staff a ph'un a all y cartref ddarparu gofal, cymorth a chofnodion drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelsom fod rhywfaint o arwyddion Cymraeg bach, a wnaed â llaw ar gael, ond mae angen gwella ar hyn er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch. Dywedodd y rheolwr wrthym fod rhywfaint o'r staff yn medru'r Gymraeg a'u bod yn archwilio sgiliau iaith Cymraeg y staff ar hyn o bryd. Dywedodd staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cymorth i fynychu dosbarthiadau Cymraeg yn ôl eu dymuniad. Gall pobl ddisgwyl derbyn gwasanaeth cyfyngedig trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft, mewn sgysiau gyda staff, ond mae angen gwneud gwelliannau i gofnodion ac i'r wybodaeth a geir ynghylch y gwasanaeth.

2. Gofal a Chymorth

Crynodeb

Mae anghenion unigol pobl a'u hoffterau yn hysbys i staff ac yn cael eu cofnodi. Mae gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n hyrwyddo annibyniaeth a photensial unigolion yn weithredol.

Mae cofnodion gofal wedi gwella ond mae angen gwneud gwaith pellach arnynt er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael i'r staff yn ddidrafferth a'u bod yn fwy sicr ynghylch sut mae pobl am i'w gofal a'u cymorth gael eu darparu.

Ein canfyddiadau

Mae pobl yn cael cynnig cynhesrwydd ac anogaeth. Gwelsom staff yn ymateb yn brydlon pan oedd angen cymorth neu sicrwydd ar bobl. Roedd dau unigolyn a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth wedi cwblhau ein holiaduron ac roedd eu hymatebion yn nodi bod y gwasanaeth yn *"dda iawn"* a *"bob amser yn diwallu eu hanghenion"*. Gwnaeth un perthynas a wnaeth gwblhau ein holiadur nodi *"rydyn ni bob amser yn cael tawelwch meddwl wrth inni adael xxx yn eu dwylo gofalgar, cymwys"*. Roedd sylwadau a dderbyniwyd gan bobl broffesiynol a oedd yn rhan o'r gwasanaeth yn gadarnhaol iawn ac yn cynnwys *"mae'r cyfathrebu rhwng y gwasanaeth a'r teuluoedd yn rhagorol"*, *"mae staff/gofalwyr yn gyflym iawn i ymateb i unrhyw bryderon. Does dim byd yn ormod o drafferth"* a *"nid ymatebir i unrhyw gais mewn ffordd negyddol. Mae'n bleser gweld (pobl) yn y gwasanaeth a gweld cynnydd a chanlyniadau cyflawniadau defnyddwyr y gwasanaeth a theuluoedd pan eu bod yn cael eu cyflwyno i'r gwasanaeth"*. Mae pobl yn cael eu trin â charedigrwydd a pharch.

Mae pobl yn derbyn gofal a chymorth priodol yn ystod eu harhosiad. Roedd anghenion gofal a chymorth pobl yn cael eu cofnodi ac yn cynnwys manylion am unrhyw gymhorthion ac offer yr oedd eu hangen. Roedd gwybodaeth ynghylch unrhyw gyflyrau meddygol sydd wedi cael diagnosis ar gael i staff gyfeirio atynt yn ôl yr angen. Roedd cofnodion yn cynnwys manylion ynghylch unrhyw feddyginiaethau yr oedd pobl yn dod â hwy i'r cartref, wedi eu cymryd yn ystod eu harhosiad, ac unrhyw rai a oedd wedi mynd adref gyda nhw. Roedd cofnodion hefyd yn dangos bod pobl yn cael cymorth gyda'u hanghenion iechyd, gan gynnwys chwilio am gyngor meddygol a gofal iechyd pe bai hyn yn angenrheidiol yn ystod eu harhosiad. Roedd gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r dull o gadw cofnodion wrth i bobl ddychwelyd i'r cartref ar gyfer gofal seibiant. Roedd cofnodion yn dangos bod targedau pobl yn cael eu cofnodi a bod cofnodion yn cael eu cadw pan oedd y rhain wedi'u cyflawni, er enghraifft, prynu eu tocyn eu hunain ar drafnidiaeth gyhoeddus. Gwelsom fod mesurau wedi cael eu cyflwyno a oedd yn cynnwys cyfarfod â pherthnasau cyn neu ar adeg derbyn er mwyn sicrhau bod cofnodion yn gyfredol ac yn adlewyrchu amgylchiadau cyfredol pobl. Fodd bynnag, roedd weithiau'n anodd canfod pa wybodaeth a oedd yn gyfredol oherwydd nid oedd gwybodaeth nad oedd yn gyfredol yn cael ei thynnu o'r ffeiliau bob amser ac nid oedd yn gwbl glir sut roedd barn pobl yn cael ei gasglu ynghylch sut roeddent am i'r gofal a'r cymorth gael eu darparu.

Roedd cofnodion gofal yn cynnwys manylion ynghylch diddordebau pobl a'u gweithgareddau, megis siopa, mynychu sesiynau gofal dydd, cymorth synhwyraidd a gwibdeithiau. Gwelsom bobl yn cael dewisiadau am y prydau a'r diodydd a oedd ar gael ac yn cael cymorth i siopa a pharatoi eu prydau bwyd eu hunain lle bynnag y bo'n bosibl.

Roedd asesiadau risg ar waith ond roedd prinder manylion penodol ynddynt ynghylch risgiau a oedd yn hysbys a chanllawiau i staff ynghylch sut i leihau risgiau ynghyd â hybu annibyniaeth pobl. Mae pobl yn derbyn y gofal cywir ar yr adeg gywir ond mae angen gwneud gwelliannau wrth gynllunio gofal er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn gywir, yn gyfredol ac yn ystyried sut mae pobl am i'r gofal a'r cymorth gael eu darparu.

3. Yr Amgylchedd

Crynodeb

Mae pobl yn aros mewn amgylchedd addas a chartrefol sy'n cynnig safon resymol o fyw, ond fe fydd yn elwa ar y gwaith ailwampio a'r ailaddurno sydd ar y gweill. Mae iechyd a diogelwch yn cael ei ystyried o ddifrif ac mae'r adeilad a'r offer yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n dda.

Ein canfyddiadau

Mae pobl yn cael cymorth mewn amgylchedd cartrefol, domestig. Gwelsom fod y cartref yn lân ac yn daclus ac nid oedd unrhyw arogleuon annymunol, ond mae angen adnewyddu ac ailaddurno rhai mannau, er enghraifft roedd craciau ar rai waliau ac roedd ôl traul ar rywfaint o'r gwaith paent. Mae hysbysfyrddau ym mhob ystafell wely sy'n cael eu defnyddio i ysgrifennu enwau pobl a hyd eu harhosiad, sy'n cyd-fynd ag arferion sefydliadol. Gwnaeth uwch aelod o'r staff dynnu'r dyddiadau a dweud wrthym y byddai'r arfer hwn yn cael ei ailystyried. Dywedodd aelod o'r staff wrthym eu bod o'r farn y dylai'r gwasanaeth '*wella'r addurniadau*' a gallai hyn gynnwys '*dillad gwely sy'n cyd-weddu*'. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y cartref ar fin cael ei ailwampio a'i ailaddurno unwaith y byddai'r gwaith adeiladu parhaus i ehangu'r cartref, wedi'i gwblhau. Gwelsom fod offer a oedd yn ofynnol gan bobl gan gynnwys systemau tracio uwchben a chyfleusterau baddon hygyrch, yn cael eu darparu. Gwelsom fod eitemau personol yn cael eu cadw yn yr ystafell ymolchi gymunedol. Nid yw hyn yn arfer da oherwydd y risg o groes-heintio. Cafodd yr eitemau hyn eu symud oddi yno gan uwch aelod o staff ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion pobl ond mae angen ei ddiweddarau.

Mae pobl yn byw mewn amgylchedd diogel. Mae'r cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae cofnodion yn cael eu cadw er mwyn dangos bod yr offer wedi'u gwasanaethu yn unol â gofynion iechyd a diogelwch. Mae gwiriadau iechyd a diogelwch ar waith bob wythnos ac mae unrhyw waith cynnal a chadw angenrheidiol yn cael ei gofnodi. Mae mesurau atal tân ar waith gan gynnwys asesiad risg tân, hyfforddiant diogelwch tân i staff a diffoddwyr tân sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben. Mae gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn amgylchedd addas, diogel.

4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Crynodeb

Mae gwybodaeth yn cael ei darparu ynghylch y gwasanaeth ond mae angen adolygu hyn er mwyn sicrhau ei bod yn gywir mewn perthynas â chwynion a'i bod yn cynnwys cyfeiriad at gynnyg gweithredol y Gymraeg.

Er nad oes unrhyw bryderon gennym ynghylch sut mae pobl yn cael eu cefnogi yn y gwasanaeth, ni allwn dystiolaethu bod cymorth yn cael ei ddarparu gan staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol neu wedi derbyn cymorth ffurfiol fel bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir i ddiwallu anghenion pobl. Mae angen gwneud gwelliannau yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli, gan gynnwys cadw cofnodion, adrodd yn ôl at asiantaethau allanol a phrosesau sicrwydd ansawdd fel bod y gwasanaeth a'i ganlyniadau ar gyfer pobl yn gwella'n barhaus.

Ein canfyddiadau

Mae gwybodaeth ar gael ynghylch y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn cynhyrchu datganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth, wedi'i ddyddio Mehefin 2017, sy'n cynnwys manylion am y weithdrefn gwyno, ond nid yw'n esbonio p'un a ymchwilir i gwynion o fewn 14 diwrnod a ph'un a hysbysir yr achwynydd o'r canlyniad. . Ni chawsom wybod yn ystod yr arolygiad fod dau gwyn wedi cael eu cyflwyno. Dywedodd y rheolwr wrthym nad oeddent yn ymwybodol o ganlyniad un gwyn ac nad oedd y naill gwyn na'r llall wedi'u cofnodi gyda'r manylion llawn, gan gynnwys y canlyniad ac unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r canfyddiadau. Nid yw'r canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth yn cynnwys rhif ffôn AGC a gwnaethom hefyd nodi bod angen i'r canllaw fod yn fwy clir ynghylch pwy oedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu gofal a chymorth iddynt. Mae angen adolygu'r wybodaeth am y gwasanaeth a'i diweddarau er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn yr wybodaeth gywir fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch defnyddio'r gwasanaeth. Nid yw'r cwynion yn cael eu rheoli yn unol â gofynion cyfreithiol nac arfer da.

Mae'r arweinwyr yn darparu cymorth o ddydd i ddydd i staff. Dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd y gwasanaeth wedi recriwtio unrhyw staff newydd ers yr arolygiad diwethaf, er bod rhai staff wedi cael eu hadleoli o fewn y sefydliad. Gwnaethom siarad â staff a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr a'r uwch staff a'u bod yn gallu mynd atynt i gael cyngor yn ôl y galw. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol ond nid oedd y cofnodion a ddarparwyd gan y rheolwr yn cynnwys yr holl staff a oedd yn gweithio yn y cartref ac nid oeddent yn dangos dystiolaeth bod yr holl staff yn derbyn goruchwyliaeth lawn, ffurfiol sy'n unol â'r hyn a argymhellir, sef o leiaf chwe gwaith y flwyddyn, yn ogystal ag arfarniad blynyddol. Y rheswm am hyn oedd oherwydd nad oedd y cofnod yn cynnwys yr holl staff sy'n gweithio yn y cartref ar hyn o bryd. Nid yw pobl yn elwa ar wasanaeth lle mae staff yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn gymwys ac yn cyflawni disgwyliaidau'r sefydliad.

Nid oedd asiantaethau allanol yn cael eu hysbysu am ddiwyddiadau, gan gynnwys materion yn ymwneud â diogelu . Er bod y datganiad o ddiben yn nodi 'y byddai AGC yn cael eu hysbysu ar unwaith' am unrhyw faterion diogelu, mae dau fater diogelu wedi bod

yn y gwasanaeth na chawsom ein hysbysu amdanynt, yn unol â'r gofynion cyfreithiol, hyd nes i ni ofyn amdanynt. Gwnaethom ofyn am gael gweld y cofnodion ond roedd y rhain ar gael ar ffurf ddigidol yn unig ac nid oedd y cyfrifiadur yn y gwasanaeth yn gweithio. Dywedodd y rheolwr wrthym nad oeddent wedi derbyn adborth gan y Gwasanaeth Cymdeithasol ynghylch un o'r materion. Golyga hyn nad yw'r rheolwr yn gallu adolygu digwyddiadau o'r fath na chymryd mesurau i leihau'r risg eu bod yn digwydd eto. Nid oes mesurau ar waith i sicrhau bod AGC yn cael eu hysbysu ynghylch digwyddiadau sy'n cael effaith ar ddiogelwch a lles pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Gwelsom fod yr unigolyn cyfrifol, neu unigolyn a gafodd ei ddynodi ar ei ran, wedi ymweld â'r cartref i wirio ansawdd y gwasanaeth. Roedd cofnodion yn dangos bod eu canfyddiadau wedi cael eu cofnodi ond nad oedd ymweliadau wedi cael eu cynnal yn unol â'r amllder gofynnol, er enghraifft roedd tystiolaeth a ddarparwyd gan y rheolwr yn dangos mai dim ond un ymweliad a gafwyd yn ystod 2017. Cafodd hyn ei nodi hefyd yn yr adroddiad arolygu blaenorol. Mae angen gwelliannau o ran goruchwyliaeth y sefydliad o'r gwasanaeth.

Mae rhywfaint o systemau sicrwydd ansawdd ar waith. Dywedodd un perthynas ei fod yn credu bod y gwasanaeth "*yn dda iawn drwyddi draw - dim angen newid unrhyw beth*". Gwelsom fod archwiliad meddyginiaeth wedi cael ei gynnal gan uwch aelod o staff. Fodd bynnag nid oedd hyn yn cofnodi'r canfyddiadau mewn manylder digonol, dim ond yn nodi 'ydy', 'dim' neu 'ddim yn berthnasol'. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y gwiriadau iechyd a diogelwch a'r arolygiadau yn cael eu cynnal gan y sefydliad ond nad oedd y canfyddiadau yn cael eu rhannu â'r rheolwr. Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y llyfr damweiniau wedi cael ei archwilio i weld a oedd unrhyw dueddiadau fel y gallai camau ataliol gael eu rhoi ar waith i sicrhau na fyddent yn digwydd eto. Gwnaethom ofyn am gopi o adroddiad sicrhau ansawdd y gwasanaeth ar gyfer 2017 ond ni roddwyd copi inni. Nid yw'r trefniadau sydd ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth yn effeithiol bob amser.

Nid yw'r staff bob amser yn derbyn hyfforddiant priodol. Dywedodd pob aelod o staff y siaradwyd â nhw, ac a wnaeth gwblhau holiadur, eu bod wedi cwblhau'r holl hyfforddiant angenrheidiol ond y bu lleihad yn yr hyfforddiant arbenigol a oedd ar gael. Golyga hyn efallai nad oes gan y staff y sgiliau na'r wybodaeth i ddiwallu anghenion unigolion. Dywedodd y rheolwr a'r staff wrthym am y newidiadau a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol ynghylch anghenion pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a phan fyddai'r estyniad wedi'i gwblhau, byddai gan y bobl sy'n defnyddio'r rhan honno o'r adeilad anghenion uwch, mwy arbenigol na'r sawl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Soniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw am hyfforddiant diweddar a oedd wedi'i gynllunio i roi gwybodaeth arbenigol i'r staff ond disgrifiwyd yr hyfforddiant fel "*cyfyngedig iawn*", "*ddim yn gyfoes*", a "*ddim yn flaengar*". Ni chawsom weld cofnodion hyfforddi yn ôl ein cais, felly nid oeddem yn gallu tystiolaethu pa hyfforddiant, os o gwbl, yr oedd y staff wedi'i gwblhau. Ni allwn weld tystiolaeth bod pobl yn elwa ar wasanaeth lle mae staff yn derbyn hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

5. Gwelliannau y mae eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

Ni chyflwynwyd unrhyw hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio.

Rydym wedi hysbysu'r person(au) cofrestredig bod angen gwelliannau mewn perthynas â sicrwydd ansawdd ac adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal (rheoliad 25 (1) (2)). Ni chyflwynwyd hysbysiad y tro hwn am nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol neu sylweddol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn disgwyl i'r person(au) cofrestredig gymryd camau i ddatrys hyn a byddwn yn olrhain y mater yn yr arolygiad nesaf.

Rydym wedi hysbysu'r person(au) cofrestredig bod angen gwelliannau o ran hysbysu AGC, yn ddioed, ynghylch unrhyw ddigwyddiadau sy'n effeithio ar iechyd a lles y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth (rheoliad 38 (1) (e) (g) (2)). Ni chyflwynwyd hysbysiad y tro hwn am nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol neu sylweddol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn disgwyl i'r person(au) cofrestredig gymryd camau i ddatrys hyn a byddwn yn olrhain y mater yn yr arolygiad nesaf.

Rydym wedi hysbysu'r person(au) cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rheoli cwynion (rheoliad 23 (1)). Ni chyflwynwyd hysbysiad y tro hwn am nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol neu sylweddol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn disgwyl i'r person(au) cofrestredig gymryd camau i ddatrys hyn a byddwn yn olrhain y mater yn yr arolygiad nesaf.

Rydym wedi cynghori'r person cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau o ran hyfforddiant staff (rheoliad 18 (1) (a) (c) (i)). Ni chyflwynwyd hysbysiad y tro hwn am nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol neu sylweddol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn disgwyl i'r person(au) cofrestredig gymryd camau i ddatrys hyn a byddwn yn olrhain y mater yn yr arolygiad nesaf.

Rydym wedi cynghori'r person(au) cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau o ran goruchwyllo staff (rheoliad 18 (2)). Ni chyflwynwyd hysbysiad y tro hwn am nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol neu sylweddol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn disgwyl i'r person(au) cofrestredig gymryd camau i ddatrys hyn a byddwn yn olrhain y mater yn yr arolygiad nesaf.

Rydym wedi cynghori'r person(au) cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â monitro ymweliadau gan y darparwr cofrestredig (rheoliad 27 (2) (a) (c)). Ni chyflwynwyd hysbysiad ar yr achlysur hwn am nad oedd effaith uniongyrchol neu sylweddol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn disgwyl i'r person(au) cofrestredig gymryd camau i ddatrys hyn a byddwn yn olrhain y mater yn yr arolygiad nesaf. **(Mae hyn wedi ei ailadrodd o'r adroddiad arolygu blaenorol).**

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Ni wnaethom gyflwyno unrhyw hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio.

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Rhaid i'r gwasanaeth ystyried sut mae'n bwriadu bodloni gofynion cynnig gweithredol y Gymraeg mewn perthynas â gwybodaeth a ddarperir am y gwasanaeth ac o ran y ffordd y mae gofal a chymorth yn cael eu darparu.
- Mae angen gwella'r cynlluniau gofal ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn a'u bod yn cynnwys mwy o wybodaeth ynghylch sut mae pobl am i'w hanghenion gofal a chymorth gael eu diwallu. Dylai asesiadau risg fod yn fwy manwl a phenodol.
- Rhaid i'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth gynnwys yr amserlen ar gyfer ymchwilio i gŵynion, sicrwydd yr ymchwilir i unrhyw gŵynion a dderbynnir ac y caiff yr achwynydd ei hysbysu o'r canlyniad. Dylai'r canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth egluro i bwy y mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu llety a gofal ar eu cyfer.
- Dylai pob aelod o staff dderbyn arfarniad blynyddol.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Gwnaethom ymweld â'r gwasanaeth yn ddirybudd ar 9 Ionawr 2018 rhwng 10am a 3pm fel rhan o'n rhaglen arolygu.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom siarad â'r rheolwr a phum aelod o staff.
- Cawsom daith o amgylch yr adeilad a gwnaethom adolygu'r cofnodion iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'r adeilad a'r offer angenrheidiol.
- Gwnaethom anfon holiaduron at bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu perthnasau, staff a gweithwyr proffesiynol sydd â chysylltiad â Park View. Gwnaethom dderbyn dau gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, dau wrth berthnasau, dau wrth aelodau o staff a thri wrth bobl broffesiynol. Mae eu hymatebion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.
- Gwnaethom ddefnyddio'r Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI). Mae'r dull SOFI yn galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal, a'i gofnodi, mewn modd sy'n ein helpu i ddeall profiad y bobl nad ydynt yn gallu cyfathrebu â ni.
- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o gofnodion, gan gynnwys tri chofnod gofal. Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth, cofnod goruchwyllo ac archwiliad o feddyginiaethau. Gwnaethom edrych hefyd ar adroddiadau a gwblhawyd gan yr unigolyn cyfrifol pan ymwelodd â'r cartref, yn unol â gofynion rheoliad 27.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Cartref Gofal i Oedolion – Iau
Person cofrestredig	Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Rheolwr cofrestredig	Wendy Bailey
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	Pedwar
Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC	7 Gorffennaf 2016
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	9 Ionawr 2018
Iaith weithredol y gwasanaeth	Yn rhannol ddwyieithog
Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?	Nac ydy, ond mae'n gweithio tuag at hyn.
<p>Gwybodaeth ychwanegol: Nid yw'r gwasanaeth yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg. Rydym yn argymhell bod darparwr y gwasanaeth yn ystyried 'Mwy na Geiriau - Fframwaith Strategol Olymol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Gofal Cymdeithasol' Llywodraeth Cymru.</p>	